# Cynnwys

**Dehongli ....... 6**

**1. Cyflwyniad ac egwyddorion cymorth ariannol ....... 8**

**2. Rheolau cyflwyno ceisiadau ....... 12**

**3. Tâl yr Aelodau ....... 16**

**3A. Cymorth ychwanegol ....... 19**

**4. Gwariant ar lety preswyl ....... 22**

**5. Siwrneiai'r Aelodau ....... 28**

**6. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ....... 35**

**7. Cymorth staffio ar gyfer Aelodau ....... 44**

**8. Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol ....... 55**

**9. Aelodau sy'n gadael eu swyddi ....... 64**

gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ar 24 Hydref 2023.

**7.1.5A.** Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn unig, caiff Aelod hawlio taliad ychwanegol o hyd at £600 am bob aelod o staff a gyflogir ar 1 Ebrill 2023 ar y sail a ganlyn:

a. Caiff £600 ei dalu i staff a gyflogir yn llawn amser (37 awr yr wythnos),

b. Mae £600 ar sail pro rata ar gyfer staff a gyflogir am lai na 37 awr yr wythnos fel cyfran o'r oriau gwaith wythnosol dan gontract ar 1 Ebrill 2023,

c. gwneir taliad yn uniongyrchol i staff drwy'r gyflogres,

d. os gofynnir am hynny, gellir talu staff mewn rhandaliadau,

e. bydd y costau a delir o dan y paragraff hwn yn dod o'r cronfeydd canolog ac ni chânt eu tynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio,

f. nid yw'r taliadau'n rhan o'r Lwfans Gwariant Staffio o dan baragraff 7.1.1 wrth ystyried trefniadau ar gyfer trosglwyddiadau dan baragraff 7.8.2.

**7.1.5B.** Bydd y £600 ychwanegol o dan baragraff 7.1.5A yn cael ei gysoni'n unol â phob pwynt cyflog o fewn y pedwar band cyflog ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2024.

**7.1.5C.** Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn unig, caiff Aelod hawlio swm ychwanegol o hyd at £600 am bob aelod o staff a gyflogir ar 30 Tachwedd 2023 ar y sail a ganlyn:

a. Caiff £600 ei dalu i staff a gyflogir yn llawn amser (37 awr yr wythnos),

b. Mae £600 ar sail pro rata ar gyfer staff a gyflogir am lai na 37 awr yr wythnos fel cyfran o'r oriau gwaith wythnosol dan gontract ar 30 Tachwedd 2023,

c. Gwneir taliad yn uniongyrchol i staff drwy'r gyflogres,

d. Os gofynnir am hynny, gellir talu staff mewn rhandaliadau,

e. Bydd y costau a delir o dan y paragraff hwn yn dod o'r cronfeydd canolog ac ni chânt eu tynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio,

f. Nid yw'r taliadau'n rhan o'r Lwfans Gwariant Staffio o dan baragraff 7.1.1 wrth ystyried trefniadau ar gyfer trosglwyddiadau dan baragraff 7.8.2.

**7.1.5D.** Nid yw'r £600 ychwanegol o dan baragraff 7.1.5C wedi'i gydgrynhoi.

**Tabl 3: Graddfeydd cyflog staff Pleidiau Gwleidyddol ar gyfer 2023-24**

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff** | £41,846 | £43,990 | £46,247 | £48,617 | £51,113 |
| **Uwch-gynghorwr** | £38,042 | £39,990 | £42,043 | £44,196 | £46,469 |
| **Band 1** | £28,274 | £30,805 | £33,575 | £36,598 | £39,902 |
| **Band 2** | £24,143 | £26,556 | £29,220 | £32,152 | £35,388 |
| **Band 3** | £21,862 | £23,555 | £25,381 | £27,353 | £29,483 |

**8.2.6ZA.** Yn weithredol o 1 Rhagfyr 2023 hyd at 31 Mawrth 2024 mae'r cyflog ar gyfer Band 3, Pwynt Cyflog 1, i'w drin fel £23,088 i adlewyrchu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ar 24 Hydref 2023.

**8.2.6A.** Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn unig, caiff Aelod hawlio taliad ychwanegol o hyd at £600 am bob aelod o staff a gyflogir ar 1 Ebrill 2023 ar y sail a ganlyn:

a. Caiff £600 ei dalu i staff a gyflogir yn llawn amser (37 awr yr wythnos),

b. Mae £600 ar sail pro rata ar gyfer staff a gyflogir am lai na 37 awr yr wythnos fel cyfran o'r oriau gwaith wythnosol dan gontract ar 1 Ebrill 2023,

c. gwneir taliad yn uniongyrchol i staff drwy'r gyflogres,

d. os gofynnir am hynny, gellir talu staff mewn rhandaliadau,

e. caiff y costau o dan y paragraff hwn eu talu o'r cronfeydd canolog.

**8.2.6B.** Bydd y £600 ychwanegol o dan baragraff 8.2.6A yn cael ei gysoni'n unol â phob pwynt cyflog o fewn y pum band cyflog ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2024.

**8.2.6C.** Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn unig, caiff Aelod hawlio swm ychwanegol o hyd at £600 am bob aelod o staff a gyflogir ar 30 Tachwedd 2023 ar y sail a ganlyn:

a. Caiff £600 ei dalu i staff a gyflogir yn llawn amser (37 awr yr wythnos),

b. Mae £600 ar sail pro rata ar gyfer staff a gyflogir am lai na 37 awr yr wythnos fel cyfran o'r oriau gwaith wythnosol dan gontract ar 30 Tachwedd 2023,

